=

**Cronfa Sgiliau Creadigol 2024**

**NODIADAU CYFARWYDDYD ALLANOL**

**Mae'r ddogfen ganllaw wedi'i strwythuro fel a ganlyn:**


**1.0 Trosolwg o'r gronfa**

- **1.1 Diben y Gronfa**
- **1.2 Cefndir**
- **1.3 Y Broses Gwneud Cais**
- **1.4 Amserlen**
- **1.5 Meini Prawf Allweddol ar Gyfer Ymgeiswyr**
- **1.6 Cymhwystra**
- **1.7 Costau Cymwys a Chostau Anghymwys**
- **1.8 Allbynnau a Chanlyniadau**

**2. Y broses hawlio ac amodau'r gronfa**

- **2.1 Rhestr Hawliadau**
- **2.2 Rheoli Cymorthdaliadau'r DU**
- **2.3 Cyhoeddusrwydd**
- **2.4 Y Gymraeg**
- **2.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**
- **2.6 Hysbysiad Preifatrwydd**


Diben y nodiadau cyfarwyddyd hyn yw eich helpu i gwblhau'r cais am gyllid o dan Gronfa Sgiliau Creadigol.

### 1.1 Diben y Gronfa

Nod y gronfa hon yw cyflawni'r blaenoriaethau o ran sgiliau a nodir yn y cynllun gweithredu tair blynedd ar gyfer sgiliau creadigol a gafodd ei lansio ar 21 Medi 2022. Mae'r gronfa yn un o blith nifer o gamau gweithredu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Corff Sgiliau Creadigol.

### 1.2 Cefndir

Dyma'r ail gylch o'r Gronfa Sgiliau Creadigol, ac mae'r blaenoriaethau wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol tair blynedd ar gyfer y sectorau sgrîn, cerddoriaeth, gemau, animeiddio a thechnoleg ymgolli yng Nghymru.

Mae dolen i'r prosiectau sy'n cael eu cefnogi o dan gylch cyntaf y cyllid i'w gweld yma.

Mae'r 10 blaenoriaeth sydd wedi'u nodi gan y diwydiant wedi'u rhestru isod;

- **Hyfforddiant Busnes ac Arweinyddiaeth**
- **Cefnogi Talent**
- **Sicrhau bod Recriwtio yn Fwy Amrywiol a Chynhwysol**
- **Cyfleoedd a Lleoliadau Lefel Mynediad**
- **Cyfleoedd a Lleoliadau Uwchsgilio**
- **Addysg a'r Cwricwlwm Newydd**
- **Ymwybyddiaeth o Yrfaoedd**
- **Arloesedd**
- **Pontio'r Bwlch rhwng AB/AU a Diwydiant**
- **Lles y Gweithlu a Chymorth i Weithwyr Llawrydd**

Bydd y Gronfa Sgiliau Creadigol yn gais agored am gyllid ar gyfer prosiectau a all gyflawni yn erbyn un neu fwy o'r blaenoriaethau hyn.

Rydym yn awyddus i'n cyllid gyflawni yn erbyn bylchau cydnabyddedig mewn sgiliau. Mae'r Panel Cynghori ar Sgiliau Creadigol wedi nodi nifer o fylchau, o fewn pob un o'r tri sector blaenoriaeth. Wrth asesu ceisiadau am gyllid rhoddir blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny sy'n dangos eu bod yn mynd i'r afael â bylchau yn y diwydiant. Mae enghreifftiau yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- <u>Sgrin</u>
    - Darlledu, rheoli cynhyrchu, sgiliau darlledu awyr agored, sgiliau cynorthwyydd cynyrchiadau byw a chynyrchiadau wedi'u recordio ymlaen llaw, sgiliau peirianwyr e.e. peirianwyr llun, gweithrediadau tâp fideo, gweithrediadau EVS a gwarantwyr sain
    - Ôl-gynhyrchu, yn benodol swyddi ôl-gynhyrchu lle mae angen y Gymraeg
    - VFX

- <u>Cerddoriaeth</u>
    - Lles y gweithlu a chymorth ar gyfer gweithwyr llawrydd
    - Sgiliau technegol e.e. sain/golau

- <u>Gemau, Animeiddio a Thechnoleg Ymgolli</u>
    - Hyfforddiant mewn peiriannau gemau (Unity / Unreal), meddalwedd ochr gefn, meddalwedd ochr flaen, optimeiddio
    - Hyfforddiant mewn meddalwedd a thechnoleg animeiddio 2D/3D e.e. Blender, Toon Boom
    - Hyfforddiant ar gyfer maes technoleg greadigol, gan gynnwys cynnwys cydgyfeiriol (cynhyrchu rhithwir, cymwysiadau ymgolli a defnyddio deallusrwydd artiffisial ym maes technoleg greadigol)

Rydym yn benodol yn croesawu cyflwyniadau gan ddarparwyr hyfforddiant ar gyfer prosiectau sy’n cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau o ran datblygu gweithlu sydd wirioneddol yn amrywiol ac yn gynhwysol, gan gynnwys pobl dalentog sy’n medru’r Gymraeg, ar draws y sectorau sgrin, cerddoriaeth, a gemau a thechnoleg ymgolli yng Nghymru.

Mae'r Gronfa Sgiliau Creadigol wedi'i hanelu at sefydliadau / busnesau sydd â hanes blaenorol o gyflawni prosiectau sgiliau a hyfforddiant o ansawdd uchel yn y diwydiannau creadigol.

Bydd hyd at £500,000 yn 2024/25 a £500,000 yn 2025/26 ar gael ar gyfer prosiectau yn y cylch cyllido hwn. Bydd isafswm o £25,000 ac uchafswm o £125,000 ar gael ar gyfer pob prosiect llwyddiannus ar gyfer y cyfnod cymwys sef rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2026.

Mae Cymru Greadigol yn bartner yn y cais ar gyfer Clwstwr Sgiliau Cymru Sefydliad Ffilm Prydain, a bydd prosiectau yn y sector sgrin sy’n derbyn cymorth yn cyd-fynd yn agos â’r gwaith mae’r Clwstwr yn ei wneud pe byddai’r cais yn cael ei gymeradwyo.

### 1.3 Y Broses Gwneud Cais

Bydd y Cais hwn am gynigion cyllido yn agor ar Dydd Iau 14 Mawrth 2024 ac yn cau ar Ddydd Gwener 10 Mai 2024 am hanner dydd. Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n cyrraedd yn hwyr.

Gall ein tîm roi cyngor ar gymhwystra. I gael ffurflen gais, anfonwch neges e-bost i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

Noder – ni fydd trafod eich prosiect ag aelod o'r tîm yn awgrymu bod eich cynnig wedi cael ei gymeradwyo na'i asesu.  Cynllun cystadleuol yw hwn a chaiff pob prosiect ei asesu a'i sgorio yn erbyn meini prawf safonol.

Bydd angen i ymgeiswyr ateb pob adran o'r ffurflen gais a chynnwys yr holl wybodaeth ategol y gofynnir amdani, gan gynnwys manylion ariannol llawn ac amserlenni talu arfaethedig â cherrig milltir ar gyfer y grant. Dylid cyflwyno ffurflenni cais wedi'u cwblhau i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru. Noder – ni fydd tîm Cymru Greadigol yn rhoi sylwadau ar ffurflenni cais wedi'u cwblhau.

Bydd pob cais yn destun proses Diwydrwydd Dyladwy. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'ch rhagamcanion ariannol, gwiriad twyll, a gwiriadau ar Gyfarwyddwyr eich cwmni. Os ydych yn ymwneud â busnes sydd mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cais am fwy o gyllid a dylech drafod hyn â ni cyn ichi wneud unrhyw gais.

Gofynnir ichi ddewis nifer o allbynnau ar gyfer eich prosiect ar y ffurflen gais. Caiff y rhain eu mesur yn ffurfiol yn ystod ac ar ôl y prosiect am hyd at ddwy flynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Grant cystadleuol yw hwn ac ni chaiff pob cais ei gymeradwyo. Ni ddylech ddechrau ar y prosiect nes y caiff eich cais ei gymeradwyo ac y caiff llythyr cynnig ei roi.  Os byddwch yn gwneud hynny, gallech annilysu eich cais yn llwyr, hyd yn oed os yw'n llwyddiannus.

**Arfarnu Prosiectau**

Dyfernir cyllid gan Cymru Greadigol i brosiectau sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion allweddol canlynol:

| Egwyddorion cyllido allweddol Cymru Greadigol: |
|---|
| Dylai cyllid a ddyfernir i fusnesau wneud y canlynol: |
| **Cydweddu'n Strategol**<br>Cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru – Caiff cyllid ei gynllunio i gyflawni uchelgeisiau Cymru Greadigol ar gyfer y diwydiannau creadigol, a'r blaenoriaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Bydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a thalent, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu hystyr ehangaf, gwaith teg, cynaliadwyedd, a hyrwyddo ein diwylliant a'r Gymraeg. Blaenoriaethir y prosiectau hynny a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r dirwedd diwydiannau creadigol yng Nghymru dros y tymor canolig i hirdymor. |
| **Sicrhau'r manteision mwyaf posibl i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd** Bydd cyllid yn cael ei dargedu at brosiectau sy'n sicrhau'r enillion mwyaf posibl o'r buddsoddiad, er mwyn sicrhau bod cyllidebau cyfyngedig yn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i Gymru. |

Dylai eich cais gael ei deilwra i ddangos sut y byddwch yn cydymffurfio â'r egwyddorion uchod.

Caiff pob prosiect ei arfarnu mewn dau gam:

- **Y cam cyntaf** – cynhelir gwiriadau er mwyn sicrhau bod yr holl feini prawf cymhwystra sylfaenol wedi'u bodloni, gan gynnwys a yw'r prosiect yn cyd-fynd â'n hegwyddorion cyllido allweddol fel y'u hamlinellir yn y tabl uchod. Caiff ceisiadau / prosiectau nad ydynt yn bodloni pob un o'r gwiriadau cymhwystra (gweler adran 1.5), neu nad ydynt yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol ar gyfer cyllido, eu gwrthod.

- **Yr ail gam** – Caiff ceisiadau sydd wedi bodloni pob un o'r meini prawf cymhwystra ac sy'n cydymffurfio â'n hegwyddorion cyllido allweddol, eu harfarnu a'u cyflwyno i banel asesu mewnol Llywodraeth Cymru yn unol â'r meini prawf arfarnu yn Atodiad 1. Argymhellir bod prosiectau sy'n cyflawni'r sgôr pasio ofynnol yn cael eu cymeradwyo gan Weinidogion, yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael (mewn sefyllfaoedd lle mae nifer o brosiectau yn cyflawni'r sgôr pasio ond nad oes digon o gyllideb i gefnogi pob un, caiff y prosiectau eu rhestru yn ôl safle gyda'r uchaf yn derbyn cyllid).

**Cymeradwyo Prosiectau**

- Caiff pob cynnig a asesir ei gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol.
- Ar ôl i geisiadau gael eu hystyried gan Weinidogion, caiff ymgeiswyr eu hysbysu o'r penderfyniad terfynol ac anfonir llythyrau cynnig at ymgeiswyr llwyddiannus
- Bydd angen llofnodi llythyrau cynnig a dychwelyd un copi i Lywodraeth Cymru cyn i'r prosiect ddechrau
- Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus lofnodi Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

**Apeliadau**

Cronfa ddisgresiynol yw'r Gronfa Sgiliau Creadigol ac ni ellir apelio.

Hysbysir ymgeiswyr aflwyddiannus drwy e-bost yn dilyn penderfyniad y panel asesu.

### 1.4 Amserlen

Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau, byddwn yn eu hasesu erbyn Dydd Gwener 24 Mai ac yn cadarnhau canlyniad erbyn Dydd Gwener 31 Mai. Fodd bynnag, mae'r amseriad hwn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau sy'n dod i law.

Bydd y cyfnod cyllido cymwys yn rhedeg o ddyddiad cymeradwyo'r llythyr cynnig hyd at 31 Mawrth 2026.

Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n cyrraedd yn hwyr.

### 1.5 Meini Prawf Allweddol ar Gyfer Ymgeiswyr

- Rhaid i bob prosiect gyflawni o leiaf un o'r 10 blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol
- Rhaid i geisiadau fod ar gyfer y sectorau sgrin, gemau animeiddio a thechnoleg ymgolli neu gerddoriaeth. Ni ddylai prosiectau ddyblygu hyfforddiant sy'n bodoli eisoes yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Ni fyddwn yn cefnogi gweithgarwch dyblyg na rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n llawn drwy gyllid cyhoeddus arall
- Rhaid i geisiadau roi gwerth da am arian a bydd hyn yn rhan o'r asesiad. Dim ond ar gyfer yr hyn sydd ei angen arnoch y dylech wneud cais ac nid yr uchafswm, oni bai bod angen yr uchafswm arnoch
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos y bydd eu prosiect hyfforddi yn dod â budd penodol i unigolion/cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Ni ddyfernir cyllid i brosiectau sydd o fudd i gwmnïau unigol yn unig. Mae Rhaglen Sgiliau Hyblyg Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i gwmnïau sydd am uwchsgilio eu staff.

### 1.6 Cymhwystra - Pwy All Wneud Cais?

- Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr allu dangos hanes blaenorol o ddarparu hyfforddiant a sgiliau o ansawdd uchel a/neu uwchsgilio yn y diwydiannau creadigol ehangach, neu mewn maes tebyg, yn eu ceisiadau naill ai fel cwmni neu sylfaenydd/cyfarwyddwr cwmni.
- Ni ddyfernir cyllid i unigolion
- Ni ddyfernir cyllid i ymgeisydd oni all ddarparu datganiadau ariannol archwiliedig neu gyfrifon llawn wedi'u hardystio'n annibynnol ar gyfer o leiaf un flwyddyn (nid oes angen ichi fod wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW os yw cyfanswm eich trosiant islaw'r trothwy cofrestru).
- Bydd angen i ymgeiswyr sydd wedi derbyn cymorth yn flaenorol ddangos eu bod wedi cyflawni allbynnau'r prosiect y cytunwyd arnynt, a bod â chynllun clir ar gyfer gweithgareddau a chanlyniadau ar gyfer y dyfodol.

**Amodau Cyffredinol Ceisiadau:**

Fel amod o'r cyllid, byddwch yn cytuno i ymgymryd â tair blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Cymru Greadigol a gofynnir ichi ddarparu casgliad o ddelweddau a fideos, a hawliau perthnasol, o'r prosiect er mwyn inni eu defnyddio mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd ac i'r wasg.

Hoffem ychwanegu pob un o'n hymgeiswyr at ein cronfa ddata farchnata er mwyn sicrhau eich bod yn cael gwybodaeth amserol am yr opsiynau cymorth pellach sydd ar gael gan Cymru Greadigol.

**Pa fath o brosiectau rydym am eu gweld?**

Byddwn yn blaenoriaethu:

- Prosiectau sy'n cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau penodol ar gyfer y sector fel y'u hamlinellir yn adran 1.2 a'r prosiectau hynny fydd yn cyflawni yn erbyn bylchau sgiliau a nodir
- Prosiectau sy'n gallu dangos dull cynhwysol o ddysgu a'r rhai sy'n ceisio gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth recriwtio yn y sectorau creadigol
- Prosiectau sy'n ceisio darparu lleoliadau gwaith, cyfleoedd mentora, profiad yn y diwydiant a chyflawni yn erbyn yr uchelgeisiau cyflogadwyedd ehangach a nodir yng Nghymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwydd a sgiliau a'r Warant i Bobl Ifanc
- Prosiectau sy'n gallu cyfeirio at y ffordd y maent yn cyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Prosiectau sy'n gallu dangos eu bod wedi sicrhau arian cyfatebol gan bartneriaid eraill
- Prosiectau sy'n gallu dangos model ariannol ar gyfer parhau i ddarparu'r hyfforddiant y tu hwnt i oes y prosiect.
- Prosiectau sy'n gallu dangos ymgysylltu â'r diwydiant a gweithio mewn partneriaeth â darparwyr a rhanddeiliaid eraill

- Prosiectau sy'n gallu dangos proses recriwtio ledled Cymru.
- Prosiectau sy'n gallu darparu hyfforddiant yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)
- Bydd angen i'r prosiectau a ddewisir ddangos canlyniadau clir a methodoleg fanwl o ran y ffordd y caiff y prosiect ei werthuso.
- Bydd angen i brosiectau ddarparu manylion am y cyfranogwyr a dargedir a dulliau recriwtio hefyd.

Nid ydym am weld y math hwn o brosiect:

- Prosiectau nad ydynt yn cyflawni o leiaf un o'r 10 blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol
- Prosiectau ar gyfer sectorau heblaw'r sectorau sgrin, gemau animeiddio a thechnoleg ymgolli, neu gerddoriaeth
- Prosiectau cyntaf cwmni newydd heb hanes blaenorol oni bai bod gan sylfaenwyr neu gyfarwyddwyr y cwmni hanes blaenorol o gyflawni prosiectau mewn maes tebyg
- Prosiectau sy'n cynnwys costau marchnata neu gyfalaf yn bennaf
- Prosiectau sy'n dyblygu hyfforddiant presennol yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru
- Noder - Er y gall y cwmni sy'n gwneud cais fod wedi'i leoli y tu allan i Gymru, bydd angen i'r rhai sy'n cael budd o'r hyfforddiant fod yn gwmnïau a/neu'n unigolion sydd wedi'u lleoli yng Nghymru

**Beth allwch chi wneud cais amdano?**

Gellir gwneud cais am gyllid o dan Gronfa Sgiliau Creadigol ar gyfer isafswm o £25,000 hyd at uchafswm o £125,000. Gall Cymru Greadigol dalu 100% y prosiect. Fodd bynnag, croesewir unrhyw arian parod cyfatebol a geir gan y bydd yn cynyddu'r effaith, yn ei gwneud yn bosibl i'r cyllid fynd ymhellach, ac yn gwneud eich achos dros gymorth yn gryfach.

Dim ond am hyd at 24 mis y caiff costau eu talu. Ni fydd yn bosibl hawlio am unrhyw ôl-gostau, nac ymestyn y prosiect y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw. Caiff cwmnïau gyflwyno hyd at **un** cais fesul cais am gyllid. Dylai ymgeiswyr sydd wedi sicrhau cyllid eisoes ar gyfer prosiect arall sy'n mynd rhagddo ymgynghori â Cymru Greadigol cyn gwneud cais i'r gronfa hon oherwydd efallai na chaiff hyn ei ganiatáu. Nid yw'r cyllid yn ad-daladwy. Fodd bynnag, os na chyrhaeddir y targedau (h.y. ni chaiff y cynnyrch ei gwblhau, ceir oedi sylweddol neu ni chyflwynir gwybodaeth briodol am yr hawliad), gellir adfachu'r cyllid.

Caiff pob cais ei ystyried yn unigol a chaiff y grant hwn ei dalu yn ôl disgresiwn llwyr Llywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar asesiad yn ogystal â gwerth am arian.

**Yr hyn na fyddwn yn ei gyllido:**

- Unrhyw gostau cyfalaf megis gwaith datblygu neu adnewyddu adeiladau;
- Costau sefydlu, e.e. cyfarpar a swyddfeydd, costau recriwtio ac ati;
- Costau yr eir iddynt cyn i'r cyllid gael ei roi (llythyr cynnig wedi'i lofnodi a dderbynnir gennym);
- Costau dileu swyddi;

- TAW y gellir ei hadennill; Dyled hanesyddol sylweddol (cyn 1 Ebrill 2020);
- Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo achos credoau sefydliadau gwleidyddol neu sefydliadau ffydd
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru;
- Dyled hanesyddol sylweddol (cyn 1 Ebrill 2024);
- Swm i wneud iawn am incwm a gollwyd neu ailchwyddo eich cronfeydd wrth gefn;
- Prosiectau sy'n dibynnu ar lafur am ddim neu sy'n ei annog.

## 1.7 Costau Cymwys a Chostau Anghymwys

**Costau Cymwys**

- Cyflogau staff
- Costau hyrwyddo a marchnata (i fod yn llai na 5% o gyfanswm y prosiect)
- Paratoi adnoddau ar gyfer cyflawni prosiect hyfforddi
- Ffioedd siaradwyr
- Costau teithio a chynhaliaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r gwaith o gyflawni'r prosiect
- Ffioedd hyfforddwyr
- Llogi ystafelloedd
- Costau cyfieithu
- Costau swyddfa/gweinyddol
- Cyllid bwrsari i gyfranogwyr gan gynnwys costau gofal plant a theithio

**Costau Anghymwys**

- Dyledion a thaliadau gwasanaeth dyledion
- Difidendau
- Taliadau llog
- Costau yr eir iddynt nad ydynt yn benodol i'r prosiect hwn
- Ffioedd rheoli oni ellir eu dangos drwy fethodoleg gymeradwy
- Costau na ellir dangos eu bod wedi cael eu cyfrifo mewn ffordd deg ac na ellir dangos cyfiawnhad resymol drostynt

## 1.8 Allbynnau a Chanlyniadau

Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar nifer o allbynnau a chanlyniadau allweddol, gan gynnwys:

- Nifer yr unigolion / gweithwyr llawrydd a gefnogwyd
- Nifer y cwmnïau a gefnogwyd
- Nifer y gweithdai/sesiynau hyfforddi a ddarparwyd
- Nifer y lleoliadau profiad gwaith a ddarparwyd
- Cynhyrchu adnoddau addysgegol
- Proses recriwtio amrywiol a chynhwysol
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Nifer y lleoliadau hyfforddi a/neu brofiad gwaith a sicrhawyd
- Adroddiad gwerthuso i gynnwys data dienw cyfunol ar gyfranogwyr sy'n cael budd o'r hyfforddiant gan gynnwys:
    - rhywedd/amrywiaeth
    - cyfradd oedran

- rhanbarth preswylio yng Nghymru

Gofynnir i ymgeiswyr ddewis allbynnau perthnasol ar yr adeg y gwneir y cais, a chaiff y rhain eu nodi ar y llythyr cynnig.

## 2. Y Broses Hawlio ac Amodau'r Gronfa

### 2.1 Rhestr Hawliadau

Gofynnir ichi ddarparu rhestr dalu arfaethedig ar gyfer cyfnod cyllido llawn eich prosiect rhwng mis Mehefin 2024 a mis Mawrth 2026.

Bydd isafswm o dri chyfnod hawlio y flwyddyn yn un o amodau **gorfodol** grant ar gyfer prosiectau sy'n cwmpasu hyd at ddwy flwyddyn ariannol 2024/2025 a 2025/2026, a chaiff y dyddiadau ar gyfer cyflwyno hawliadau eu nodi yn y llythyr cynnig. Fodd bynnag, gellir cyflwyno hawliadau ychwanegol ar unrhyw adeg yn ychwanegol at y terfynau amser a bennwyd. Os bydd angen cyfnodau hawlio ychwanegol arnoch, ychwanegwch nhw at y tabl a ddarparwyd ar y ffurflen gais.

### Talu a Monitro

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen bodloni amodau talu fel y'u nodir yn rhestr y llythyr cynnig.
- Telir y cyllid mewn ôl-daliadau fel arfer. Mewn achosion eithriadol, gellir talu cyllid ymlaen llaw, lle y gall ymgeisydd ddangos achos busnes boddhaol.
- Caiff hawliadau ôl-daliadau eu talu yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar ôl cwblhau ffurflen hawlio a phroffil o'r gwariant a ragwelir, heb fod yn hwyrach na diwedd mis Mawrth 2026. Caiff hawliadau ymlaen llaw eu talu'n chwarterol yn seiliedig ar gostau rhagamcanol a'u hadolygu bob chwarter ar gyfer gweddill cyfnod y prosiect. Bydd angen tystiolaeth o wariant ar ddiwedd pob chwarter.
- Caiff rhestr hawliadau a phroffil gwariant eu nodi fel cytundeb yn y llythyr cynnig. Ceidw Llywodraeth Cymru yr hawl i adolygu'r cyllid a ddyfarnwyd os na chydymffurfir â rhestrau y cytunwyd arnynt.
- **'Costau a Ysgwyddwyd / a Dalwyd gennych chi'** yw costau nwyddau sy'n cael eu clirio drwy eu talu neu sy'n cael eu setlo gennych fel arall. Bydd angen tystiolaeth o gostau a dalwyd ar gyfer pob sefydliad p'un a yw hawliadau yn seiliedig ar flaendaliadau neu ôl-daliadau.
- Rhoddir ffurflenni hawlio ar gais a gellir eu cyflwyno drwy e-bost i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru. Bydd angen i brosiect a delir mewn ôl-daliadau ddarparu tystiolaeth lawn cyn y gwneir unrhyw daliadau. Caiff manylion yr hyn y bydd angen ichi ei ddarparu ar y cam hawlio eu cynnwys yn eich llythyr cynnig.
- Unwaith y caiff ei gymeradwyo, caiff y taliad ei wneud o fewn 10 diwrnod gwaith.

### Monitro Ar ôl Cwblhau

Bydd gwybodaeth am ddarparu a chyflawni yn erbyn yr allbynnau y cytunwyd arnynt yn parhau i gael ei chofnodi am hyd at 24 mis ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd yn un o amodau'r cynnig grant.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i werthuso llwyddiant y grant hwn ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o Gronfa Sgiliau Creadigol. Rhagwelir y bydd yr ymchwil hon yn ystyried y ffordd y mae'r gweithgareddau wedi'u cyflawni a'u heffaith. Bydd yn asesu i ba raddau y gellir priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau yn uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn ystyried a yw effeithiau ehangach a ragwelwyd neu nas rhagwelwyd wedi'u gwireddu.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru neu drydydd parti yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu er mwyn ichi roi adborth ar eich profiad o'r cynllun. Caiff yr wybodaeth hon ei dadansoddi a'i chyflwyno yn ddienw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd

### Ad-dalu'r Grant

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Llywodraeth Cymru ofyn i'r grant gael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os na chaiff yr arian ei ddefnyddio at y dibenion a nodwyd ar y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb a chaiff hwn ei orfodi drwy geisio tystiolaeth ar ôl dyfarnu'r grant.

## 2.2 Rheoli Cymorthdaliadau'r DU

Darperir y cyllid drwy gynllun cymhorthdal cofrestredig Llywodraeth Cymru, 'Cynllun Cymorth Diwylliannol a Chreadigol Cymru', SC10468. Cynllun Cymorth Diwylliannol a Chreadigol Cymru | LLYW.CYMRU

Mae'n rhaid ichi sicrhau bod y defnydd o'r cyllid yn gyson â'r cytundebau perthnasol yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd y mae'r DU yn rhan ohono, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol.

Fel rhan o'ch cais, bydd angen ichi roi manylion am unrhyw gyllid blaenorol y mae eich busnes wedi'i gael.

## 2.3 Cyhoeddusrwydd

Bydd yn rhaid i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus wneud y canlynol:

- Cytuno i'w prosiect gael ei gynnwys ar yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, marchnata a datganiadau i'r wasg rydym yn eu cynhyrchu.
- Cytuno i'w prosiect gynnwys cydnabyddiaeth *Cefnogwyd gan Cymru Greadigol* ar eu ddeunydd hyrwyddo.

Fel amod o'r cyllid, byddwch yn cytuno i ymgymryd â tair blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Cymru Greadigol a gofynnir ichi ddarparu casgliad o ddelweddau a fideos, a hawliau perthnasol, o'r prosiect er mwyn inni eu defnyddio mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd ac i'r

wasg. Dylid trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyn ag aelod o dîm Cymru Greadigol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu cyn i'r deunydd gael ei gyhoeddi'n gyffredinol.

Hoffem ychwanegu pob un o'n hymgeiswyr i'n cronfa ddata farchnata er mwyn sicrhau eich bod yn cael gwybodaeth amserol am yr opsiynau cymorth pellach sydd ar gael gan Cymru Greadigol, ond nid yw hyn yn un o amodau'r cyllid.

### 2.4 Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rôl allweddol wrth gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y'i nodir yn Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae blaenoriaethau o ran y Gymraeg yn un o nifer o feysydd y byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n hasesiad o gydweddiad strategol wrth asesu prosiectau.

### 2.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dengys amcanion y Ddeddf sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y ‘nodau llesiant’. Dengys y saith nod llesiant y Gymru rydym am ei chreu. Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau. Bydd cyfeirio at y nodau hyn ac esbonio sut y bydd eich prosiect yn eu cyflawni yn bwysig wrth asesu cais.

### 2.6 Hysbysiad Preifatrwydd

Sicrhewch eich bod wedi darllen, deall a derbyn y ‘Nodiadau Cyfarwyddyd’ a'r ‘Hysbysiadau Preifatrwydd’ cyn ichi ddechrau ar y cais.

- Dolen i Hysbysiad Preifatrwydd Cyllid Grant

## Atodiad 1 - Meini Prawf Gwerthuso

Bydd angen i brosiectau gydymffurfio â'r egwyddorion cyllido a ddisgrifir uchod er mwyn symud i'r ail gam i'w hasesu. Caiff pob prosiect cymwys ei arfarnu yn erbyn y meini prawf canlynol ac yna caiff sgôr pob prosiect ei thrafod/dilysu/cytuno gan banel arfarnu a fydd yn cynnwys un swyddog y tu allan i Cymru Greadigol:

| *MPA* | *Meini Prawf Arfarnu* | *Pwysoliad* | *Sgôr* |
|---|---|---|---|
| ***1.*** | **Cydweddu'n Strategol**<br><br>• I ba raddau y mae'r prosiect yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau allweddol y Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol, yn benodol yn erbyn anghenion y sector a nodwyd a bylchau sgiliau cydnabyddedig<br>• I ba raddau y mae'r prosiect yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys; saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; uchelgeisiau cyflogadwyedd ehangach a nodir yng Nghymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwydd a sgiliau a'r Warant i Bobl Ifanc.<br>• I ba raddau mae'r prosiect yn cyd-fynd a blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn y diwydiant a dathlu Cymru, ei diwylliant a'i hiaith. | ***x 5*** | ***/5*** |
| **2.** | **Cryfder ac ansawdd y prosiect a gynigir a thystiolaeth bod angen y fenter sgiliau/hyfforddi**<br>• Ansawdd cyffredinol y cais a'r disgrifiad o'r cynnig<br>• Budd ac effaith e.e. a yw'n sicrhau manteision mesuradwy o ran datblygu sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y sector creadigol yng Nghymru<br>• A fydd y prosiect yn darparu hyfforddiant arloesol?<br>• Tystiolaeth bod gwerth yn cael ei ychwanegu at y dirwedd sgiliau creadigol yng Nghymru<br>• Cyflawni yn y Gymraeg | × 5 | /5 |
| **3.** | **Cynllun cyflawni'r prosiect a hanes blaenorol (rheoli a'r gallu i gyflawni)**<br>• Hanes blaenorol o gyflawni prosiectau tebyg<br>• Cynllun prosiect gan gynnwys amserlen ac adnoddau'r tîm; a yw'r cynlluniau a'r amserlenni yn realistig?<br>• Strwythur y tîm rheoli; a oes gan y tîm yr arbenigedd a'r gallu i gyflawni'r prosiect?<br>• A yw'r prosiect yn dangos tystiolaeth o bartneriaeth/cydweithio â'r diwydiant/sector?<br>• Beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect? | × 4 | /5 |
| **4.** | **Allbynnau'r Prosiect**<br>• Ansawdd targedau ac allbynnau'r prosiect; a ydynt yn realistig ac yn gyson â chyflawni blaenoriaethau strategol?<br>• Allbynnau a'r hyn a gaifff ei gyflawni; gwybodaeth fanwl am y ffordd y caiff y rhain eu mesur | × 3 | /5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Sut y caiff llwyddiant y prosiect ei fesur? | | |
| **5.** | **Costau'r Prosiect, Cyllid a Gwerth am Arian**<br><br>• A yw'r cynnig cyffredinol yn rhoi gwerth am arian?<br>• A yw costau'r prosiect yn rhesymol ar gyfer y gweithgareddau arfaethedig?<br>• A yw'r manteision disgwyliedig yn gymesur â'r costau?<br>• A oes tystiolaeth wedi'i rhoi ar gyfer strategaeth ymadael a chynaliadwyedd hirdymor y cynnig?<br>• A oes arian cyfatebol wedi'i sicrhau?<br>• A oes angen cyllid Llywodraeth Cymru er mwyn i'r prosiect hwn fynd rhagddo ac a fydd yn cyflymu'r prosiect/a allai'r prosiect ddigwydd heb gymorth Llywodraeth Cymru? | × 3 | /5 |